# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc a Phrif Swyddog Cyllid | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk and Chief Financial Officer* | Bethesda |
| **Bethan Roberts** | Gwynedd |
| Rhif Ffôn: 01248 602131 | LL57 3AE |
| Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org | |


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cygor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth ar
**Nos Iau 21 Medi 2023 am 18.30**

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Mair Owen Pierce
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Gareth P Williams
Y Cynghorydd Carwyn Edwards
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Anwen Jones
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Huw Jones

**Y Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Beca Roberts

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Mair O Pierce.

   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Iwan Hywel a David Roberts.

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2023.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig –** Dim diweddariad hyd yn hyn.

3.2 **Llecyn Tir, Bont Tŵr –**Cadarnhawyd fod cwmni Savills yn edrych i fewn i'r mater, ac mi fydden nhw yn cysylltu yn ôl yn fuan iawn – ar y gweill.

3.3 **Llwybr Rhif 3 –** Penderfynwyd y bydd y Clerc yn trefnu cyfarfod gyda rheolwr y swyddog i drafod y posibilrwydd o newid y categori hwn – ar y gweill.

3.4 **Drychau traffig, Lon y Grug/Llwybr Main -** Cytunwyd bydd Ian Morgan yn edrych i fewn i'r mater, dim diweddariad hyd yn hyn.

3.5 **Mainc Pentref Llandygai –** Y pentref wedi derbyn mainc fel anrheg. Y Clerc i holi os yw'r Cyngor yn fodlon ei gosod.

3.6 **Hysbysfwrdd ger Ysgol Tregarth –**Y Clerc i weld os oes modd atgyweirio'r hysbysfwrdd gwreiddiol – Y Clerc i holi saer coed lleol.

3.7 **Llwybrau Cyhoeddus –** Adroddwyd fod yr is-bwyllgor wedi cyfarfod yn diweddar. Nodwyd fod y Clerc wedi llunio tendr ddrafft ac wedi llunio mapiau. Cytunwyd bydd y Clerc yn cylchredeg y mapiau i'r holl aelodau. Os oes unrhyw un yn digwydd mynd am dro yn ei hardal, a fyddai bosib iddyn nhw amlygu'r darnau ar y llwybrau sydd angen ei torri. Ar y gweill.

3.8 **Swyddog Cynnal –** Y Cyngor yn holi os oes bosib cael adroddiad/pwyntiau bwled am y gwaith sy'n cael ei wneud yn y plwy.

**3.9 Seddi Gwag –** Nodwyd fod y Clerc wedi llunio llythyr yn hysbysebu'r sedd wag, cytunwyd bydd yn danfon y llythyr drwy'r post i drigolion yr ardal - ar y gweill.
**3.10 Biniau Baw Ci –** Nodwyd fod y Cyng. Beca Roberts yn gwneud cais am finiau newydd – un yn Sling ac un ar Lon y Grug – ar y gweill.
**3.11 Arhosfan Bws/'Pull-in Bay' Llys y Gwynt –** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael arhosfan/pull-in bay ger Llys y Gwynt – dim ymateb hyd yn hyn.
**3.12 Mynedfa Lon Las Ogwen ger Modurdy Pandy –** estynu'r linell wen a gosod 'road studs' coch (Ian Morgan) – ar y gweill.
**3.13 Bont ar y ffordd B4409 ger Moelyci –** angen arwyddion blaenoriaeth un-ffordd ymlaen (Ian Morgan) – dim diweddariad hyd yn hyn.
**3.14 Llyfrgell lloches bws Mynydd Llandygai –** y Cyng. Mary Hayes wedi holi'r Neuadd Goffa am ad-leoli'r llyfrgell. Ni fydd hyn yn bosib oherwydd diffyg lle ac oriau agor y Neuadd. Penderfynwyd rhoi arwydd yn y lloches, yn rhoi rhybudd 30 diwrnod os nad oes rhywun yn fodlon cymryd cyfrifoldeb am y llyfrgell, yna bydd rhaid i'r Cyngor Cymuned ei glirio oherwydd rhesymau Iechyd a Diogelwch.
**3.15 Mynedfa Bro Syr Ifor, Tregarth –** Adra wedi gosod postiau newydd concrît i atal bobl rhag barcio ar y gwair. Y Clerc i holi Adra os oes modd rhoid gwlau blodau neu rhywbeth deiniadol yno.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Medi 2023'
**Cyflwynwyd:** Ebost gan Aled Owen, Llwybr Llechi am y cerfiadau ar barapet Bont Ogwen. Nodwyd fod Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen hefo diddordeb mewn cynnal prosiect. Awgrymwyd cael y prosiect Lleisiau Lleol i gymryd rhan hefyd.
**Cyflwynwyd:** Comisiwn Ffiniau i Gymru - holiadur ceisio barn am y broses adolygu a sut gellid ei wella. Y Cadeirydd i lenwi'r holiadur.
**Cyflwynwyd:** Holiadur RAAC – Y Clerc wedi ei anfon ymlaen at Bwyllgor Canolfan Tregarth. Y Pwyllgor wedi ei anfon yn ôl at Cyngor Gwynedd.
**Cyflwynwyd:** Archwilio Cymru – ymgynghoriad ar raddfeydd ffioedd. Y Clerc i lenwi'r holiadur.
**Cyflwynwyd:** Cyngor Gwynedd - holiadur Gwasanaethau Etholiadol. Penderfynwyd bydd y Cadeirydd i yn cwblhau'r holiadur.
**Cyflwynwyd:** Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol – digwyddiad ar lein 8 Tachwedd 2023. Awgrym bod ni'n cynnal cyfarfod yn swyddfa Partneriaeth Ogwen. Y Cadeirydd am fynychu.

**5. Gwaith y mis**

**Gelli, Tregarth** – Nodwyd fod y golau stryd ar drwy'r amser – y Clerc i hysbsyu Cyngor Gwynedd.
**Craig y Pandy** – dŵr yn codi o dan y lôn a golau stryd ddim yn gweithio – Y Clerc i cysylltu a Cyngor Gwynedd.
**Lôn fyny at Sling** – Adroddwyd fod y gwrychoedd wedi gor-dyfu – y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

**6. Llinellau melyn, Dob Tregarth**

Y Cyng. Beca Roberts wedi gwneud ymholiadau gyda Cyngor Gwynedd ar gyfer rhoi llinellau melyn yn Waen y Pandy, Dob Tregarth ac hefyd wrth y Neuadd Goffa yn Mynydd Llandygai. Y Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cais ond hefyd eisiau ychwanegu lleoliadau eraill i'r rhestr.

- Cyffordd o'r A5 i Dregarth tuag at Fferm Dinas (ceir yn parcio ar ochr chwith i'r ffordd)
- Mynediad Lôn Las Ogwen wrth Modurdy Pandy
- Cyffordd ar waelod Braich Talog
- Ffordd Felin Hen (A4244) lle mae'r ceir yn parcio ar ochr chwith i'r ffordd

**7. Sefydlu Is-bwyllgor Parc y Bwlch**
Ar ôl trafodaeth hir, penderfynwyd na fyddai'n briodol i'r Cyngor sefydlu is-bwyllgor gan nid oes yr un o'r aelodau hefo arbenigedd yn y maes hwn.
Bydd yn well cael grŵp diddordeb allan yn y gymuned, ac bydd unrhyw gynghorydd yn gallu ymuno yn y grŵp os ydynt yn dymuno.

**8. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**
**Canolfan Tregarth –** cafwyd adroddiad gan y Cyng. Dafydd Owen am y gwaith cynnal a chadw arfaethedig yn y ganolfan.

**9. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**9.1** Pawb wedi derbyn Adroddiad Ariannol gyda rhestr taliadau a mantolen am y flwyddyn gyfredol. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

**10. Taliadau**

| | |
|---|---|
| Cyngor Gwynedd | £150.00 |
| G Williams | £3300.00 |
| Geiriau Gwyn | £210.00 |
| Ysgol Dyffryn Ogwen | £150.00 |

Nodwyd siom gyda hysbysiad funud olaf yr ysgol ynglŷn a'r noson wobrwyo a'r cais am rodd. Nid oedd digon o amser i drefnu cynrychiolydd o'r Cyngor i fynychu a cyflwyno'r rhodd.

**11. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/16/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Datblygiad llety gwyliau (cynllun diwygiedig) sy'n golygu:- Gosod sylfeini ar gyfer cabannau gyda decio cysylltiedig. Gosod sylfeini ar gyfer podiau glampio. Seilwaith cysylltiedig i gynnwys ffyrdd mewnol, mannau parcio, systemau draenio cynaliadwy ynghyd a draenio dwr aflan. Tirlunio meddal a chaled gan gynnwys torri rhai coed, cadw coed ac ymgymryd a gwelliannau i'r goedlan presennol. Codi derbynfa/adeilad gwerthiant ynghyd ac ail-orchuddio'r adeilad presennol a'i ddefnyddio fel hwb e-beicio gyda pwyntiau gwefru trydan.<br>**Penderfyniad:** ar y gweill. |

| | |
|---|---|
| **C23/0445/16/LL** | Zip World, Chwarel Penrhyn, Bethesda<br>Gosod paneli PV ar doeau tri adeilad presennol<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau. |
| **C23/0448/16/LL** | 7 Y Gefnan, Mynydd Llandygai<br>Dymchwel adeilad bresennol ac ail godi annedd newydd.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill |

**12. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C23/0594/16/DT** | 2 Fron Hyfryd, Tregarth<br>Estyniad unllawr yng nghefn yr eiddo<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad |
| **C23/0538/16/DT** | Bwthyn Newydd, Pen y Groes, Tregarth<br>Cynyddu uchder tô presennol y garej. Estyniad deulawr i gefn y prif dŷ<br>**Penderfyniad:** Rydym yn teimlo bod yr estyniadau i'r tŷ a'r garej yn fawr iawn ac yn debygol o effeithio gryn dipyn ar y cymdogion. Mae cwestiwn hefyd am sut fyddai edrychiad y tŷ yn effeithio'r tŷ drws nesaf. |
| **C23/0614/16/LL**<br>*(y Cyng. Lowri Jones datgan diddordeb)* | Penrala, Tregarth<br>Cais llawn i godi 7 tŷ ynghyd â gwaith cysylltiedig i gynnwys gwelliant i’r fynedfa bresennol<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. Mae angen cartrefi fforddiadwy yn Nhregarth, ac mae rhain i’w gweld yn briodol fel cartrefi cyntaf, o gofio’r prisiau sy’n cael eu codi bellach. Mae priffordd gerllaw, mae arosfan bws, maes chwarae i blant, y Ganolfan Gymunedol, a’r Lôn Las hefyd gerllaw, ac mae modd cerdded yn hwylus i’r ysgol gynradd.<br><br>O ran cymeriad a chyd-destun yr adeiladau, da hefyd ydi nodi’r bwriad i ddefnyddio brics coch ar rai ohonynt, efo hynny’n adlewyrchu pensaerniaeth y Tai Rheilffordd gerllaw.<br><br>Sylwadau ychwanegol: oes bosib cael bythynod yn y datblygiad? Hefyd oes modd cael gwelliant i’r Lôn Las drwy’r tir yma? |

**13. Unrhyw fater brys arall**
Dim.